University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Grŵp Prifysgol De Cymru
Strategaeth Amgylcheddol (2015 – 2020)

Grŵp Prifysgol De Cymru
Adran Cyfleusterau ac Ystadau
Ewch i:
http://estates.southwales.ac.uk/Sustainability/

Cynnwys

Cynnwys 1
Cyflwyniad ..... **Error! Bookmark not defined.**
Rheoli Gwastraff 3
Ynni 5
Dŵr 7
Teithio 9
Caffael Cynaliadwy 11
Bioamrywiaeth 13
Cynnwys y Gymuned 15
Adeiladu ac Adnewyddu 16
Allyriadau a Rhyddhau 18

Cyflwyniad

Cyd-destun

Sefydlwyd Prifysgol De Cymru (PDC) ym mis Ebrill 2013 yn sgil uno dwy brifysgol, Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg. Roedd gan y ddwy brifysgol hanes amlwg o reoli'r amgylchedd. Mae Prifysgol Morgannwg wedi bod â System Reoli Amgylcheddol ISO 14001 ar waith ar draws ei hadran Ystadau am tua 10 mlynedd ac mae Prifysgol Cymru Casnewydd wedi bod â System Reoli Amgylcheddol ISO 14001 ar waith ar draws y Brifysgol am tua 5 mlynedd. Daeth Prifysgol Cymru, Casnewydd, i'r 33ain safle yn nhabl y Gynghrair Werdd Pobl a Phlaned yn ystod 2012 a'r 34ain safle yn 2013.

Ar hyn o bryd, PDC yw'r brifysgol fwyaf yng Nghymru. Mae hi'n cyflogi dros 3,000 o staff ac yn cefnogi dros 30,000 o fyfyrwyr. Ar hyn o bryd, rydym yn rheoli pum campws; Trefforest, Glyn-taf, ATRiWM, Dinas Casnewydd a Chaerllion. Mae Coleg Merthyr a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) yn rhan o grŵp ehangach PDC. Fel Prifysgol fawr rydym yn cydnabod y rôl sydd gennym i'w chwarae o ran diogelu'r amgylchedd.

Bydd y Brifysgol yn ymdrechu i wella ei pherfformiad amgylcheddol yn barhaus ac yn dewis y gweithgareddau hynny sydd fwyaf priodol i anghenion ac amgylchiadau penodol y Brifysgol, gan helpu i gyflawni ei chenhadaeth.

Cenhadaeth a Nod

Yn unol â chenhadaeth ac amcanion strategol y Brifysgol, mae'r Adran Ystadau wedi mabwysiadu'r datganiad cenhadaeth amgylcheddol canlynol:

> *Gwasanaethu, cynnal a gwella'r Brifysgol a diogelu ei hamgylchedd lleol gan sicrhau ei bod yn gallu dilyn ei hamcanion addysgol a'i hamcanion ymchwil.*

Mae ein Strategaeth Amgylcheddol wedi cael ei datblygu ar y cyd â'n Polisi Amgylcheddol i gefnogi'r genhadaeth hon. Mae'r polisi yn ddogfen haen uchaf, sy'n cael ei chefnogi gan yr Is-ganghellor, ac sy'n amlinellu ymrwymiad y Brifysgol i leihau ei heffaith amgylcheddol i'r eithaf. Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Brifysgol i ddiogelu'r amgylchedd, ac yn adlewyrchu amcanion ein System Reoli Amgylcheddol ISO 14001:2004. Mae'n adlewyrchu nodau ac amcanion strategaethau rhanbarthol a sefydliadol y Brifysgol, gofynion Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru, a gofynion amrywiol Gylchlythyron Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gan gynnwys gofynion y Cylchlythyr Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF).

Mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar y meysydd yn y Brifysgol sy'n creu'r effaith amgylcheddol fwyaf, gan ganiatáu'r lleihad mwyaf posibl o ran carbon. Drwy fabwysiadu arferion amgylcheddol cyfrifol a datblygu gweithdrefnau cymeradwy, bydd y Brifysgol yn ceisio

cynnal a gwella ei hamgylchedd a'r amgylchedd lleol o amgylch ein campysau, gan gyfrannu felly at ddiogelu amgylcheddau lleol a chenedlaethol.

Rheoli Gwastraff

Amcan:

- *Lleihau effaith amgylcheddol gwastraff drwy leihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a chynyddu lefelau ailddefnyddio ac ailgylchu*

Targed:

- *Cynyddu'r gyfradd ailgylchu 3% y flwyddyn; 15% dros y pum mlynedd nesaf*

Mae PDC yn cydnabod bod rheoli gwastraff yn gyfrifol yn bwysig, ac ystyried y capasiti cyfyngedig mewn safleoedd tirlenwi, a'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â gwaredu gwastraff. Felly, nod y Brifysgol yw lleihau faint o wastraff y mae'n ei gynhyrchu ac yn ei anfon i safleoedd tirlenwi drwy weithredu cynlluniau ailgylchu gwastraff diogel a chyfrifol. Gall nwyddau sy'n cael eu gwneud o ddeunyddiau crai wedi'u hailgylchu gael eu cynhyrchu gan ddefnyddio llai o ynni na defnyddio deunyddiau crai newydd sbon. Felly, bydd arferion rheoli gwastraff cyfrifol yn arbed adnoddau naturiol, ynni, ac yn gwarchod yr amgylchedd.

Nod y Brifysgol yw dilyn yr hierarchaeth gwastraff a amlinellir isod:

- Atal
- Ailddefnyddio
- Ailgylchu
- Adfer
- Gwaredu

Er nad oes modd cael gwared ar wastraff yn llwyr, bydd y Brifysgol yn mabwysiadu'r arferion isod i atal gwastraff lle bynnag y bo modd ac yn sicrhau defnydd cynaliadwy o unrhyw wastraff a gynhyrchir:

- Datblygu perthynas waith dda gyda chontractwyr gwastraff trwyddedig
- Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer pob trafodyn gwastraff a gyflawnir
- Sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y lle ym mhob sgip
- Edrych ar ailddefnyddio eitemau fel dodrefn a WEEE lle bo'n bosibl
- Parhau i ailgylchu'r holl ffrydiau gwastraff mae modd eu hailgylchu
- Cynnal ymarferion codi ymwybyddiaeth ar gyfer staff a myfyrwyr
- Gweithio gydag elusennau ac ysgolion lleol i ailddefnyddio dodrefn gwastraff a WEEE
- Fel dewis olaf, edrych ar drosi gwastraff yn ynni gyda'n contractwyr gwastraff.

- Monitro ac adolygu'r broses o gynhyrchu ac ailgylchu gwastraff, a phennu targedau ar gyfer y dyfodol
- Ymchwilio i gyfleoedd ailgylchu ac ailddefnyddio
- Codi ymwybyddiaeth ymysg yr holl fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr o'r angen i reoli eu gwastraff
- Cadw at yr hierarchaeth gwastraff
- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth wastraff berthnasol

Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma:

- *Yn 2014 roedd cyfradd ailgylchu PDC yn 53% yn Nhrefforest, 47% a 34% yng nghampysau Casnewydd, 34% yng Nglyn-taf ac 89% yn yr Atriwm.*
- *Mae hyn yn gyfartaledd o 50%*
- *Cyflwyno trefn ailgylchu gwastraff bwyd yn Nhrefforest a champws Glyn-taf*
- Cyflwyno biniau/arferion ailgylchu yn ein campysau i ailgylchu cardbord, papur, caniau, plastig, gwydr, cetris argraffwyr, batris, pren, metel, gwastraff bwyd a gwastraff WEEE.
- *Cysylltu â Newport Waste Savers i gasglu gwastraff ailgylchu cymysg am ddim*
- *Dod o hyd i gartref arall i dros 3,000 o eitemau o ddodrefn yn sgil cau a dymchwel adeiladau a champysau.*
- *Digwyddiadau codi ymwybyddiaeth i hyrwyddo rheoli gwastraff yn gyfrifol*
- *Biniau ailgylchu cymysg ar gyfer ein neuaddau preswyl*
- *Parhau i fonitro ein gwastraff a'n prosesau ailgylchu.*

Dogfennau cysylltiedig

Polisi Amgylcheddol
Cofrestr Gyfreithiol
Prosiectau gwastraff ac ailgylchu
Cynllun Rheoli Carbon
Trefn Rheoli Gwastraff
Cynllun Gweithredu Rheoli Gwastraff

Ynni

Amcan:

- *Lleihau'r defnydd o ynni drwy hyrwyddo arbed ynni ac effeithlonrwydd ynni.*

Targed:

- *Lleihau'r defnydd o ynni 5% y flwyddyn; 25% dros y 5 mlynedd nesaf.*
- *Gostyngiad o 3% mewn carbon y flwydddyn; 15% dros y 5 mlynedd nesaf.*

Mae effeithlonrwydd ynni yn bwysig iawn i'r Brifysgol. Mae'r penawdau niferus sy'n ein hatgoffa o'r lleihad mewn cronfeydd ynni a'r problemau gyda diogelwch cyflenwad yn atgyfnerthu'r ffaith y bydd costau ynni'n debygol o gynyddu dros amser. Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o effaith amgylcheddol defnyddio ynni ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed i leihau hyn dros amser. Nod y Brifysgol yw arbed ynni drwy leihau defnydd diangen a gwella effeithlonrwydd.

Yr arfer gweithio fydd defnyddio'r symiau lleiaf o ynni sydd eu hangen i gynnal system wresogi, goleuo a gweithredu gyffredinol ddigonol ar gyfer peiriannau, gan sicrhau bod gweithgareddau'r Brifysgol yn cael eu rhoi ar waith yn ddiogel ac yn effeithiol. Bydd yr Adran Ystadau yn adolygu ei ffynonellau ynni, ei pheiriannau a'i hoffer yn barhaus er mwyn sicrhau bod gwaith yn y dyfodol yn ymgorffori gwelliannau i effeithlonrwydd ynni yn gyffredinol gan leihau'r effaith amgylcheddol. Bydd defnydd adeiladau unigol yn cael ei fonitro i sicrhau bod defnydd gormodol neu ddiangen yn cael ei nodi a'i gywiro.

Y defnydd sylfaenol o ynni yn 2013/14 fel PDC oedd 21,125,671kWh o nwy ac 16,200,000kWh o drydan. Mae maint ystâd PDC tua 178,503m^2.

Er mwyn i'r Brifysgol gyflawni'r nodau uchod, bydd yn:

- Monitro faint o ynni a ddefnyddir, ac yn gosod targedau ar gyfer y dyfodol yn erbyn hyn.
- Ymchwilio i gyfleoedd effeithlonrwydd ynni
- Cadw'r tymheredd rhwng 19°C a 21°C
- Sicrhau bod y tymor gwresogi ar waith rhwng 1^{af} Hydref a 1^{af} Mai (gall hyn amrywio yn dibynnu ar dymheredd yr aer y tu allan - a fydd yn cael ei fonitro drwy'r amser)
- Sicrhau bod y Cyfarwyddwr Ystadau wedi awdurdodi'r holl fesurau aerdymheru
- Sicrhau mai dim ond ar ôl cael caniatâd gan yr Adran Ystadau a Chyfleusterau y bydd gwresogyddion cludadwy yn cael eu defnyddio, ac mewn sefyllfaoedd o argyfwng lle nad oes gwres a bod tymheredd yr aer tu mewn yn disgyn yn is na 19°C
- Monitro llwyddiant yr holl fentrau rheoli ynni sydd wedi'u mabwysiadu
- Codi ymwybyddiaeth ymysg yr holl fyfyrwyr a staff o'r angen i reoli ynni

- Gosod is-fesuryddion i ddeall a rheoli'r defnydd o ynni yn well
- Dilysu pob bil cyfleustodau i sicrhau cywirdeb
- Gweithio gyda Chonsortiwm Prynu Cymru i sicrhau bod y broses o gaffael ynni yn effeithiol
- Gweithio gyda phob rhan o'r Brifysgol i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni ar draws yr ystâd
- Sicrhau bod peiriannau ac offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd fel eu bod yn rhedeg yn effeithlon bob amser
- Monitro'r defnydd o ynni yn barhaus
- Monitro'r DEC a'r EPC er mwyn sicrhau bod llai o ynni'n cael ei ddefnyddio (fel sy'n ofynnol yn ôl yr EPBD)
- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth ynni berthnasol fel CRC

Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma:

- *Gwelliannau i'r goleuadau a sut caiff PIRs eu defnyddio ar draws y campysau*
- *Gosod nifer o is-fesuryddion ar yr adeiladau ar gampws Trefforest*
- *Ehangu'r system is-fesuryddion ar draws campysau. Gwaith parhaus i sicrhau ei fod yn gweithredu'n llawn ac ehangu.*
- *Gwaith rheoli BMS i wella effeithlonrwydd ynni peiriannau ac offer*
- *Digwyddiadau codi ymwybyddiaeth i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni*
- *Gosod boeleri newydd, hidlo systemau gwresogi, a gosod ynysyddion ar bibellau ar draws campysau*
- *Monitro a mesur y defnydd o ynni yn well*
- *Cynllunio ymlaen llaw er mwyn caniatáu prynu lwfansau a ragwelir o dan y cynllun CRC*
- *Gosod panel PV ar ben adeilad llety Pen-y-fan yn Nhrefforest*
- *Roedd UWN yn cymryd rhan yn y Rhaglen Rheoli Carbon Addysg Uwch. Cwblhau'r CMP 5 mlynedd. O ganlyniad, 7.5% yn llai o allyriadau carbon.*
- *Adeiladu CAPSE ar gampws Trefforest yn dilyn safon BREEAM.*

Dogfennau cysylltiedig

Polisi Amgylcheddol
Cofrestr Gyfreithiol
Prosiectau ynni
Cynllun Rheoli Carbon
Gweithdrefn Ynni
Cynllun Gweithredu Ynni

Dŵr

Amcan:

- *Hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr ar draws holl gampysau PDC.*

Targed:

- *Lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir 1% y flwyddyn; 5% dros y 5 mlynedd nesaf.*

Er nad yw prisiau dŵr wedi wynebu'r un lefel o gynnydd â phrisiau trydan a nwy yn y blynyddoedd diwethaf, mae faint o ddŵr mae'r Brifysgol yn ei ddefnyddio dal yn sylweddol. Felly mae'n hanfodol bod effaith amgylcheddol y gweithgaredd hwn yn cael ei hystyried ar bob cyfle. Bydd y Brifysgol yn ymdrechu i ddefnyddio'r symiau lleiaf o ddŵr sydd ei angen i ymgymryd â'i weithgareddau yn effeithiol. Bydd cyflenwadau poeth yn cael eu cadw ar dymheredd a fydd yn lleihau faint o ynni a ddefnyddir, ond bydd yn diogelu defnyddwyr rhag sgaldio a pheryglon iechyd eraill fel Legionella. Bydd yr holl ddŵr budr a dŵr gwastraff yn cael ei ryddhau'n gywir, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol.

Er mwyn cyflawni'r uchod, bydd y Brifysgol yn mabwysiadu'r mesurau canlynol:

- Monitro faint o ddŵr a ddefnyddir, a gosod targedau ar gyfer y dyfodol yn erbyn hyn.
- Ymchwilio i gyfleoedd effeithlonrwydd dŵr.
- Monitro llwyddiant yr holl fentrau rheoli dŵr sydd wedi'u mabwysiadu
- Codi ymwybyddiaeth ymysg yr holl fyfyrwyr a staff o'r angen i sicrhau defnydd da o ran effeithlonrwydd dŵr.
- Gosod is-fesuryddion i ddeall a rheoli'r defnydd o ynni yn well.
- Dilysu pob bil cyfleustodau i sicrhau cywirdeb.
- Gweithio gyda phob rhan o'r Brifysgol i hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr ar draws yr ystâd
- Sicrhau bod peiriannau ac offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd fel eu bod yn rhedeg yn effeithlon bob amser
- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth ddŵr berthnasol
- Mae gennym weithdrefnau argyfwng ar waith i atal halogi llwybrau dŵr.

Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma:

- *Mae mesurau arbed dŵr wedi'u gosod yng Nghaerllion yn cynnwys dulliau rheoli'r gwaith o dynnu dŵr o'r wrinalau a thapiau effeithlon*
- *Gosod mesuryddion dŵr i edrych ar y defnydd o brosesau mewn adrannau e.e. adran ffotograffiaeth.*
- *Digwyddiadau codi ymwybyddiaeth i hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr*
- *Mae Aqualogic wedi cynnal archwiliadau dŵr yn Nhrefforest a Chaerllion i nodi unrhyw welliannau effeithlonrwydd*
- *Monitro'r defnydd o ddŵr yn well i helpu i nodi unrhyw ollyngiadau yn gyflym*
- *Gosod pennau cawodydd llai o lif mewn nifer o gawodydd ar gampws Trefforest*

Dogfennau cysylltiedig

Polisi Amgylcheddol
Cofrestr Gyfreithiol
Prosiectau Rheoli Dŵr
Gweithdrefn Dŵr
Cynllun Gweithredu Dŵr

Teithio

Amcan:

- *Lleihau'r defnydd o danwydd, allyriadau carbon deuocsid ac annog dulliau eraill o deithio*

Targed:

- *Lleihau'r defnydd o gar gyrrwr yn unig 2% y flwyddyn; 10% dros y 5 mlynedd nesaf.*

Ar hyn o bryd, PDC yw'r Brifysgol fwyaf yng Nghymru, ac felly mae'n cydnabod bod teithio yn cael effaith fawr ar yr ardal a'r amgylchedd cyfagos. O ganlyniad i'r uno, mae ein campysau wedi'u gwasgaru ar draws de ddwyrain Cymru, sy'n cyflwyno heriau amrywiol wrth reoli effaith teithio. Mae PDC yn ymwybodol bod pryder cynyddol yn lleol ac yn genedlaethol ynghylch effeithiau niweidiol mwg a thagfeydd traffig ar iechyd pobl, a hefyd y niwed y mae'n ei achosi i'r amgylchedd, ac i'r gymuned leol.

Mae cludo myfyrwyr a staff i'r Brifysgol ac oddi yno, o gwmpas y campws a rhwng campysau yn cael effaith fawr ar yr ardal a'r amgylchedd cyfagos. Felly, mae cynllun teithio priodol wedi'i lunio, sy'n nodi manylion effaith y teithio a'r mesurau angenrheidiol y bydd y Brifysgol yn eu rhoi ar waith i reoli'r effaith hon.

Nodir nifer o'r mesurau hyn isod:

- Parhau i hyrwyddo dulliau teithio effaith isel a lleihau'r defnydd o geir gyrrwr yn unig drwy gynllun teithio PDC.
- Monitro'r defnydd o'r sied feiciau i weld faint sy'n manteisio ar feicio
- Codi ymwybyddiaeth o leoliad ac oriau defnyddio'r cyfleusterau cawod
- Cynnal arolygon teithio rheolaidd i fonitro ffyrdd o deithio a phennu effaith dulliau teithio cynaliadwy a lleihau'r defnydd o geir gyrrwr yn unig.
- Codi ymwybyddiaeth ymysg pob myfyriwr a staff o fanteision teithio cynaliadwy
- Parhau i weithio gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus lleol i drafod gostyngiadau
- Parhau i weithio gyda Sustrans i hyrwyddo beicio
- Ymchwilio i ddulliau o gynyddu teithio cynaliadwy
- Hyrwyddo Cynllun Beicio'r Brifysgol
- Archwiliadau rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl bolisïau trafnidiaeth perthnasol

Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma:

- *Llunio cynllun teithio ledled PDC i flaenoriaethu mesurau i leihau'r defnydd o geir gyrrwr yn unig a hyrwyddo teithio sy'n cael llai o effaith.*
- *Cyflwyno'r Cynllun beicio ar gyfer UWN yn 2010 a'i gyflwyno wedyn i PDC i gyd yn 2014.*
- *Buddsoddi mewn storfeydd beiciau diogel a chyfleusterau cawod ar draws campysau.*
- *Taliadau parcio i annog pobl i beidio â defnyddio ceir gyrrwr yn unig.*
- *Gweithio gyda Threnau Arriva Cymru i roi gostyngiad i staff*
- *Llunio map yn nodi llwybrau lleol ar gyfer beicio a cherdded*
- *Y Brifysgol gyntaf yn y wlad i gynhyrchu bio-diesel, ar gampws Caerllion.*
- *Cyfleusterau bws gwennol rhwng campysau penodol.*

Dogfennau cysylltiedig

Cynllun Teithio Grŵp Prifysgol De Cymru (2015 – 2020)

Caffael Cynaliadwy

Amcan:

- *Lleihau effaith amgylcheddol gweithredoedd prynu PDC a phrynu cynhyrchion ecogyfeillgar lle bynnag y bo modd.*
- *Sicrhau bod cyflenwyr mawr yn rheoli ac yn lleihau eu heffeithiau amgylcheddol.*

Targed:

- *Gofyn am gymwysterau amgylcheddol y prif gyflenwyr*
- *Mae gan 10% o gyflenwyr newydd Bolisi Amgylcheddol eleni*
- *Bydd gan 10% o gyflenwyr ISO 14001 neu debyg erbyn 2020*

Gall penderfyniadau prynu gael goblygiadau economaidd ac amgylcheddol mawr, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddulliau caffael cynaliadwy, ac wrth gynnal ei gweithgarwch caffael bydd PDC yn ceisio sicrhau bod ffactorau amgylcheddol a chynaliadwy yn ystyriaeth annatod o bob agwedd ar anghenion diffinio, caffael, gwasanaeth dosbarthu a defnyddio a gwaredu cynnyrch, a bydd yn gwneud hynny o fewn y fframwaith gwerth am arian yn y sector cyhoeddus.

Er mwyn cyflawni'r uchod, bydd y Brifysgol yn mabwysiadu'r mesurau canlynol:

- Gweithio gyda chyflenwyr a chontractwyr i sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau'n cael eu prynu mewn modd cynaliadwy a chyfrifol
- Annog lleihau gwastraff mewn nwyddau a phecynnu nwyddau
- Asesu cymwysterau amgylcheddol cyflenwyr cyn iddynt gael eu penodi
- Asesu cynnwys deunyddiau wedi'u hailgylchu mewn eitemau a brynwyd, a ffafrio'r rhai sy'n defnyddio ffrwd gwastraff mae modd ei ailgylchu fel deunydd crai
- Asesu effaith deunyddiau a chyfarpar gan ddefnyddio dadansoddiad cylch bywyd/technegau costio oes gyfan ar gyfer eitemau sy'n cael eu prynu ac yn ystod gwaith adeiladu newydd/adnewyddu
- Annog ailddefnyddio/atgyweirio offer/dodrefn yn fewnol ledled y Brifysgol ac yn allanol gydag ysgolion ac elusennau.
- Prynu offer y gellir eu huwchraddio a'u hadnewyddu lle bynnag y bo modd
- Asesu sgôr ynni unrhyw offer trydanol wrth brynu
- Edrych ar brynu nwyddau Masnach Deg, bwyd lleol, tymhorol a chynaliadwy lle bo'n bosibl
- Ffafrio deunyddiau llai peryglus wrth brynu cemegau
- Sicrhau bod pren sy'n cael ei brynu yn dod o ffynhonnell ddibynadwy ac yn cynnwys y logo Forrest Stewardship Council (FSC)
- Prynu papur sydd â'r ardystiad FSC, clorin isel neu ddim clorin (PFC) lle bo modd.

Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma:

- *Statws masnach deg ar draws PDC*
- *Safon bwyd am oes efydd ar gyfer y mannau arlwyo – mae hyn yn dystiolaeth ein bod yn prynu cynnyrch lleol, pysgod cynaliadwy, cig, wyau buarth ac ati.*
- *Gosod MFDs er mwyn prynu llai o getris/arlliwyddion argraffu.*
- *Polisi dod o hyd i gartref arall i ddodrefn yn hytrach na phrynu rhai newydd.*

Dogfennau cysylltiedig

Gweithdrefn Caffael Cynaliadwy
Cofrestr Gyfreithiol
Cynllun Gweithredu Caffael Cynaliadwy
Polisi Bwyd Cynaliadwy
Fframwaith Gweithredu Caffael Cynaliadwy

Bioamrywiaeth

Amcan:

- *Cynnal a gwella bio-amrywiaeth safleoedd PDC.*

Targed:

- *Diweddaru'r cynllun gweithredu bioamrywiaeth i sicrhau ei fod yn cwmpasu PDC i gyd a gweithio tuag at gynlluniau gweithredu ar fioamrywiaeth i gynnwys holl gampysau PDC.*

Fel Prifysgol, rydym yn cydnabod yr effaith y gallwn ei chael ar yr amgylchedd o ganlyniad i'n gweithgareddau. Mae gwahanol leoliadau ein campysau yn golygu bod pob un o'r tirweddau'n wahanol a bod angen eu rheoli'n wahanol. Mae ein campysau wedi'u lleoli mewn nifer o amgylcheddau, gydag ardaloedd gwelltog, coetiroedd ac ardaloedd trefol. Caiff ein tir ei reoli gydag ystyriaeth i'r amgylchedd, gan leihau'r defnydd o blaladdwyr a defnyddio deunydd nad yw'n cynnwys mawn neu blanhigion mawn isel lle bo hynny'n briodol.

Mae dyfrgwn yn yr afon wrth ymyl Campws Dinas Casnewydd ac mae ystlumod yn nythu ar gampws Trefforest. Mae'r Brifysgol yn gweithio gyda chontractwyr cyfrifol i fonitro eu presenoldeb ac i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol arnynt o ganlyniad i waith cynnal a chadw/adnewyddu.

Bydd y Brifysgol yn mabwysiadu'r arferion isod i reoli ei heffaith ar fioamrywiaeth:

- Asesu a monitro'r fioamrywiaeth ar ein campysau a chreu cynllun gweithredu i'w warchod
- Defnyddio technegau rheoli sympathetig i ddiogelu bioamrywiaeth wrth gynnal a chadw'r tir ar y campws.
- Gweithio gyda chontractwyr cyfrifol i gynnal a gwella bioamrywiaeth
- Sicrhau bod unrhyw rywogaethau a warchodir yn cael eu hadnabod ac yn cael cynefinoedd diogel
- Nodi cyfleoedd i warchod a chreu cynefinoedd bioamrywiaeth newydd
- Sicrhau y defnyddir rhywogaethau planhigion brodorol wrth blannu
- Gweithio gyda'r gymuned leol ac ysgolion i hyrwyddo bioamrywiaeth
- Cynnal arolygon blynyddol o ddyfrgwn ac ystlumod er mwyn sicrhau nad oes niwed i'r rhywogaeth o ganlyniad i'n gweithgareddau
- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth bioamrywiaeth berthnasol
- Parhau i gynnal a gwella'r fioamrywiaeth ar gampysau y mae PDC yn eu defnyddio
- Parhau i gynnal arolygon dyfrgwn
- Gwella'r llwybr cerdded drwy'r coetir a gwella'r ymwybyddiaeth o fflora a ffawna.

Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma:

- *Diogelu a chynyddu nifer yr ystlumod yn Nhrefforest a chyflawni mesurau i'w hannog i ddod yno.*
- *Dyfrgwn ar Gampws y Ddinas – parhau i fonitro ac atal/monitro gweithgarwch sy'n debygol o effeithio ar y dyfrgwn.*
- *Gwaith gwella cynefinoedd bioamrywiaeth yng nghampws Glyn-taf.*
- *Monitro a chynhyrchu BAP – i'w gyflwyno ar draws PDC i gyd.*
- *Llwybrau cerdded drwy'r coetir a hysbysiadau i godi ymwybyddiaeth o fflora a ffawna yn yr ardal honno.*

Dogfennau cysylltiedig

Cofrestr Gyfreithiol
Adroddiadau Monitro Dyfrgwn Campws y Ddinas
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
Gweithdrefn Bioamrywiaeth

Cynnwys y Gymuned

Amcan:

- *Gweithio gyda'r gymuned leol a darparu amgylchedd dymunol i bawb. Lleihau nifer y cwynion.*

Targed:

- *Amser ymateb i gwynion - 24 awr*
- *Ailddefnyddio dodrefn gydag elusennau lleol, ysgolion neu grwpiau cymunedol.*
- *Gweithio gyda 3 grŵp, ysgol neu elusen y flwyddyn; 15 o grwpiau, ysgolion neu elusennau erbyn 2025*

Mae'r Brifysgol yn cydnabod yr effaith amgylcheddol y gall ei chael ar y cymunedau lleol y mae'n gweithredu ynddynt. Oherwydd maint y Brifysgol, y nifer fawr o staff a myfyrwyr sy'n teithio i'n campysau ac ohonynt, a nifer y myfyrwyr sy'n byw o amgylch ein safleoedd, mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda'r gymuned i reoli ein heffaith ac i greu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer pawb. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Brifysgol wedi nodi'r mesurau canlynol:

- Darparu cyrsiau ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd/yr amgylchedd.
- Darparu ardal o randiroedd i staff a chymuned y myfyrwyr i dyfu llysiau, ffrwythau ac ati.
- Parhau i weithio gyda grwpiau cymunedol lleol gan gynnwys Newport Waste Savers drwy brosiectau ailgylchu ac uwchgylchu dillad.
- Rhoi dodrefn diangen i ysgolion a grwpiau cymunedol lleol
- Caniatáu i'r gymuned leol ddefnyddio cyfleusterau ar ein campysau
- Gweithio gydag ysgolion i godi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd e.e. Ysgolion y Goedwig, diwrnodau agored
- Darparu cyllid i gefnogi mesurau sy'n fuddiol i'r amgylchedd lleol e.e. llwybrau beicio
- Annog prosiectau myfyrwyr sy'n gweithio gyda'r gymuned
- Gweithio gyda phobl ddi-waith a rhai sydd ag anawsterau dysgu yn y gymuned leol i ddarparu profiad gwaith a chyfleoedd cyflogaeth

Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma:

- *Gweithdrefn gwyno ar gyfer delio â chwynion yn brydlon*
- *Cysylltiadau agos ag ysgolion, colegau, elusennau a grwpiau cymunedol lleol.*

Dogfennau cysylltiedig

Cynllun Gweithredu Cynnwys y Gymuned

Adeiladu ac Adnewyddu

Amcan:

- *Sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ystyried yn ystod unrhyw waith adeiladu newydd a/neu adnewyddu ar ein campysau*

Targed:

- *Anelu at radd Rhagoriaeth BREEAM ar gyfer adeiladau newydd mawr*

Gall y gwaith o ddylunio, adeiladu, adnewyddu a dymchwel adeiladau gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. Rydym wedi cynnal llawer o waith adnewyddu ac adeiladu o'r newydd ar ein campysau. Gall adeiladau sydd wedi'u cynllunio a'u gweithredu'n dda gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Felly mae PDC yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth ofalus i'r prosiectau hyn o ran yr amgylchedd, a bod adeiladau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol briodol.

Er mwyn cyflawni'r uchod, mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r mesurau canlynol:

- Bydd pob adeilad newydd yn cael ei adeiladu yn unol â Safon BREEAM, gyda'r nod o gyflawni sgôr Rhagoriaeth lle bo'n bosibl.
- Bydd yr holl waith adeiladu newydd ac adnewyddu yn ystyried rheoliadau adeiladu Rhan L.
- Nodi cyfleoedd ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni yn ystod y cyfnod adeiladu
- Asesu effaith amgylcheddol bosibl yr adeilad newydd e.e. teithio, bioamrywiaeth
- Gweithio gyda'r tîm prosiectau i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ystyried ar gyfer pob gwaith adeiladu/adnewyddu
- Llunio rhestr wirio prosiect/dylunio i ystyried effaith amgylcheddol prosiectau yn brydlon
- Sicrhau bod contractwyr yn cael gwybod am bolisïau amgylcheddol y Brifysgol
- Asesu cymwysterau amgylcheddol contractwyr
- Monitro unrhyw waith contractwyr i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o effaith ar yr amgylchedd a bod holl arferion amgylcheddol y Brifysgol yn cael eu cadw
- Wrth ddymchwel adeilad, chwilio am gontractwyr a fydd yn ailddefnyddio deunyddiau'r adeilad

Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma:

- *Gweithdrefn rheoli contractwyr*
- *Manyleb safonol wedi'i llunio i ystyried yr amgylchedd ac ynni.*
- *Rhagoriaeth BREEAM i Gampws y Ddinas.*
- *Ystyriaethau i reoliadau adeiladu Rhan L hefyd*
- *Gosod mesuryddion mewn adeiladau newydd ac adeiladau sydd wedi'u hadnewyddu*

Dogfennau cysylltiedig

Cofrestr Gyfreithiol
Prosiectau Adeiladu
Rhestr wirio prosiect/cynllunio
Cynllun Gweithredu Adeiladu ac Adnewyddu

Allyriadau a Gollyngiadau

Amcan:

- *Rheoli allyriadau'r Brifysgol a'r hyn y mae'n ei ollwng i'r awyr, y tir a'r dŵr.*

Targed:

- *Gostyngiad o 3% y flwyddyn mewn allyriadau carbon; gostyngiad o 15% erbyn 2025*

Gall allyriadau a gollyngiadau o'n gweithgareddau effeithio ar yr amgylchedd. Nid yw'r Brifysgol yn creu unrhyw allyriadau niweidiol y mae angen cael caniatâd IPPC ar eu cyfer; mae ein prif allyriadau yn deillio o drafnidiaeth, sy'n cael sylw yn ein Cynllun Teithio a'n Cynllun Rheoli Carbon. Mae allyriadau boeleri yn cael eu lleihau drwy fesurau arbed ynni a gwaith cynnal a chadw rheolaidd.

Mae gollyngiadau yn cael eu creu yn sgil y peiriannau a ddefnyddir yn y Labordy Ffotograffiaeth ar gampws Caerllion. Dyma'r unig weithgaredd sy'n achosi gollyngiad peryglus. Er mwyn rheoli'r perygl hwn, rydym wedi rhoi mesurau ar waith fel bod ochr gemegol y prosesau yn draenio i danc elifion sy'n cael ei wagio'n rheolaidd gan gontractwr cymeradwy. Mae'r broses golchi neu rinsio yn cynnwys symiau bach o gemegau gweddilliol sy'n draenio i'r garthffos fudr, ond rydym wedi cael y caniatâd angenrheidiol ar gyfer hyn.

Er mwyn sicrhau ein bod yn rheoli ein gollyngiadau a'n cydsyniadau, mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r mesurau canlynol:

- Archwilio gollyngiadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad ydynt yn fwy na'n lefelau caniatâd
- Gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru i reoli ein gollyngiadau/cydsyniadau
- Monitro'r tanc elifion yn rheolaidd i asesu pa mor aml y mae angen ei wagio
- Cynnal a chadw'r tanc elifion a'r boeler yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â lefelau gollyngiadau ac allyriadau
- Sicrhau bod contractwyr cymeradwy yn cael eu defnyddio i wagio'r tanc elifion
- Llunio gweithdrefnau a deunydd hyfforddi priodol fel bod staff/myfyrwyr yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd os bydd rhywbeth wedi gollwng
- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth allyriadau a gollyngiadau berthnasol

Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma:

- *Monitro allyriadau*
- *Amserlen cynnal a chadw i leihau'r tebygolrwydd o aneffeithlonrwydd*
- *Mesurau effeithlonrwydd ynni i leihau allyriadau carbon*
- *Gweithio ar gynllun teithio.*

Dogfennau cysylltiedig

Tystysgrif Caniatâd i Ollwng
Tystysgrifau Cynnal a Chadw Boeleri
Gweithdrefn Gorlifo
Cofrestr Gyfreithiol